

Dyfodol y Celfyddydau yng Ngwynedd

dysgu, mentro
a mwynhau

www.gwynedd.gov.uk



AMCANION CYNGOR GWYNEDD

- Creu cyfleoedd i alluogi pobl i gyflawni eu llawn botensial mewn gwaith ac mewn bywyd personol a chymdeithasol
- Cyfrannu at greu economi gystadleuol, fentrus a chynaliadwy gydag amrywiaeth o gyfleoedd gwaith
- Hybu gwell iechyd, gofal a lles i unigolion, teuluoedd a chymunedau
- Hybu cymunedau byw, diogel a chynaliadwy gyda darpariaeth addas o gartrefi, cyfleusterau a gwasanaethau
- Gwarchod treftadaeth, hyrwyddo diwylliant yr ardal a hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg
- Gwarchod a gwella amgylchedd naturiol ac adeiledig y Sir a chyfrannu at ddiogelu'r amgylchedd byd eang

THEMÂU'R STRATEGAETH GYMUNEDOL

- Hybu addysg gydol oes
- Hybu economi ffyniannus
- Gwella iechyd, gofal a lles
- Annog cymunedau byw a diogel
- Cefnogi cymunedau cynhwysol, dwyieithog a gweithgar
- Hybu a gwarchod yr amgylchedd

Cysylltwch â ni :
Ysgrifenyddes Pennaeth
Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes,
Cyfadran Datblygu,
Cyngor Gwynedd,
Swyddfa'r Cyngor,
Caernarfon,
Gwynedd,
LL55 1SH
Ffôn : 01286 672255
Ffacs : 01286 677347
gwynethhughes@gwynedd.gov.uk
www.gwynedd.gov.uk

*Cynhyrchwyd y llyfryn gan Gwasanaethau Golwg ar gyfer Cyngor Gwynedd, Rhagfyr 2006.
Argraffwyd gan Gyngor Gwynedd, Ionawr 2007*

Rhagair i'r Strategaeth

“Mae yna fwrlwm yn y celfyddydau yng Ngwynedd. Mae pob math o weithgareddau ar droed yn ein cymunedau ac mewn theatrau a chanolfannau. Mae'r traddodiad yn un hir ac mae rhai o enwogion diwylliant Cymru yn hanu o'r Sir – a hynny ers canrifoedd bellach. Does dim pall ar y bwrlwm wrth i artistiaid, cerddorion a llenorion cyfoes ddwyn sylw Cymru gyfan yn gyson.

Yng Ngwynedd mae theatrau, canolfannau ac orielau yn darparu cartrefi i'r celfyddydau. Ar yr un pryd mae pwyslais cynyddol ar weithio gyda chymunedau. Mae rhai pobl yn dod i gysylltiad â chelfyddyd am y tro cyntaf erioed. Mae'r elfen gymunedol yn bwysig ac yn un i adeiladu ami at y dyfodol.

Ar yr un pryd mae artistiaid (dw i'n defnyddio “artistiaid” yn yr ystyr eang) yn gweithio'n ddiwyd ym

Cynghorwyr Roy Owen a Dafydd Iwan efo plant o Wynedd fu'n creu brithwaith wrth ddysgu am wledydd Ewrop



Rhagair i'r Strategaeth

mhob rhan o'r Sir gan ddefnyddio myrdd o gyfryngau gwahanol. Mae nhw'n rhan pwysig o'r economi ac yn helpu i adfywio ein cymunedau.

Daeth hi'n amser i fwrw golwg manwl dros hyn i gyd ac i geisio llunio llwybr clir i'r dyfodol o fewn yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael. Dyna ddiben y Strategaeth hon. Mae'n bleser gennyf ei chyflwyno i bawb sy'n gweithio yn y maes – neu'n ymddiddori yn y celfyddydau yng Ngwynedd.

Dw i'n gobeithio y bydd y Strategaeth yn cael ei defnyddio'n eang drwy'r Sir i hyrwyddo a datblygu gweithgarwch celfyddydol. Dw i hefyd yn annog sefydliadau celf ac artistiaid i ddefnyddio'r ddogfen hon i gefnogi eu ceisiadau am arian.

Bu ymgynhori helaeth a diolch i bawb am eu sylwadau gwerthfawr. Diolch yn arbennig i'r Gweithgor Gwella'r Celfyddydau dan arweiniad y Cynghorydd Dyfed Edwards am arwain y ffordd.

Ar ol cwblhau'r Strategaeth, cyhoeddwyd adroddiad y Comisiwn Stephens i ddyfodol cyllido'r celfyddydau yng Nghymru a rôl Cyngor Celfyddydau Cymru. Hefyd bydd pedair prif strategaeth yn llywio ein bywydau yn y dyfodol. Edrychwn ymlaen at weithio gyda phawb sy'n ymhél a'r celfyddydau er mwyn cyfrannu at y broses o wella bywydau pawb yng Ngwynedd a chaniatau i bob unigolyn gyrraedd ei lawn potensial."

Y Cynghorydd

W. Roy Owen

(sy'n arwain ar faterion Dysgu Gydol Oes ar Fwrdd Cyngor Gwynedd).

Y pedair prif strategaeth

– y Strategaeth Gymunedol

– y Strategaeth Iechyd, Gofal Cyndeithasol a Lles

– y Cynllun Plant a Phobl Ifanc

– y Cynllun Datblygu Lleol

Pam fod angen Strategaeth?

Rydym wedi llunio'r ddogfen hon er mwyn rhoi cyfeiriad clir a ffocws pendant ar gyfer dyfodol y celfyddydau yng Ngwynedd. Y Strategaeth hon fydd yn llywio'r penderfyniadau ac yn y pen draw yn llywio lle mae'r arian yn cael ei fuddsoddi.

Felly, mae'r Strategaeth yn gosod nod clir ac amcanion ymarferol y byddwn yn gweithio tuag atynt mewn ffordd drefnus dros y blynyddoedd nesaf.

Mae'r ddogfen wedi ei hanelu'n bennaf at bawb sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau yng Ngwynedd. Cyngor Gwynedd sydd wedi arwain y gwaith ac mae'r ddogfen yn cyd-fynd ag amcanion cyffredinol y Cyngor sy'n ymwneud â chyfiawnder

cymdeithasol a grymuso cymunedau. Yn y cefndir hefyd mae prif themâu Gwynedd ar y Cyd - Strategaeth Cymunedol Gwynedd.

Wrth baratoi'r Strategaeth roedd angen ystyried rhai o nodweddion neilltuol Gwynedd o ran daearyddiaeth, economi a demograffi'r Sir. Er enghraifft, natur hŷn y boblogaeth ac allfudo ymhlith ein hieuentid; y ganran uchel sy'n siarad Cymraeg; lefelau incwm isel a thlodi ac amddifadedd rhai ardaloedd; pwysigrwydd y diwydiant twristiaeth; y ganran o bobl sydd o grwpiau ethnig.

Bydd y Strategaeth hon yn rhoi sail gadarn i'r gweithgarwch ym maes y celfyddydau yng Ngwynedd.

Mae perfformiad o'r enw "Vesica Piscis" gan ddau artist annibynnol o'r Gogledd sef Maria Hayes (Gweledol) a Paul Davies (Dawns) wedi annog trafodaeth ar ddatblygu celf newydd cyfun yng Nghymru. Cafodd y prosiect ei ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Llun gan Maria Hayes



VESICA PISCIS

Beth yw celfyddyd?

Mae pob math o gelfyddyd yn digwydd yng Ngwynedd heddiw – o opera i rap a roc, o stomp i sgrifennu nofelau, o eisteddfodau pentref, cerdd dant a chorau i greu crochenwaith neu berfformiadau theatrig. Mae'r term "celfyddydau" yn cynnwys diwylliant poblogaidd a chelfyddyd aruchel, gweithgareddau proffesiynol a chymunedol, y diwylliant Cymraeg a'r Saesneg.

Celf yw perfformio meim a ballet. Celf yw tynnu llun efo camera a chreu brodwaith a gemwaith. Celf yw canu

gwlad a chreu fideo, pensaemiaeth a chynllunio gwisgoedd. Celf yw barddoni a dawnsio salsa. Celf sy'n rhoi lliw i'n bywydau. Rhywbeth i'w fwynhau yw'r celfyddydau. Mae'n llesol i'r iechyd ac yn gwella ansawdd ein bywydau.

Celf i bawb

Dylai'r celfyddydau fod ar gael i bawb eu mwynhau gan gyfoethogi bywydau pawb sy'n byw yng Ngwynedd. Eisoes mae 39% o bobl Gwynedd yn cymryd rhan mewn



Pan ddaeth Band Samba Bangor draw i ŵyl yn Abermaw, fe gawson nhw groeso brwd. Ar yr un diwrnod bu sgwrs rhwng cynrychiolydd Band Bangor, rhai o drigolion Abermaw a swyddog Cymunedau'n Gyntaf y dref. Dyna oedd cychwyn ail fand Samba Gwynedd gyda'r cynllun "Cymunedau'n Gyntaf" yn talu am yr offerynnau a'r gwersi i'r band newydd.



SAMBA'R BERMŌ

digwyddiadau celfyddydol, o'i gymharu â 22% drwy Gymru. Ond nid da lle gellir gwell. Mae angen i'r celfyddydau dreiddio i bob rhan o'r gymuned fel bod pawb yn cael budd - boed fel aelod o'r gynulleidfa neu mewn ffordd fwy uniongyrchol.


Celf o safon

Dylid anelu at gynnal safonau da a chyson. Rydym yn cofleidio rhagoriaeth ac yn annog y safonau uchaf posib.

Adfywio'r economi

Mae'r celfyddydau yn rhan bwysig o economi'r ardal. Mae datblygu'r celfyddydau yn rhan annatod o'r broses o adfywio ein cymunedau yng Ngwynedd. Bydd hyn yn ei dro yn gwella ansawdd bywydau pob un o drigolion ein bröydd ac yn cyfrannu'n sylweddol at wneud yr ardal yn lle da i fyw ac i fentro.

Ers 30 mlynedd mae Theatr Bara Caws wedi bod yn mynd â'r theatr broffesiynol i gymunedau ar draws Gwynedd gyda sioeau bywiog a beiddgar. Mae'r cwmni cydweithredol yn gweithio gyda phobl leol wrth drefnu ymweliadau â neuaddau pentref, ysgolion, clybiau neu dafarndai. Bu'r sioe Jac yn y Bocs ar daith yn haf 2006.



Llun: Gerallt Llywelyn

Y celfyddydau yng Ngwynedd ar hyn o bryd

Mae tirwedd a phobl Gwynedd yn ysbrydoli creadigrwydd ac mae yma sylfaen gref ar gyfer datblygu'r celfyddydau ymhellach.

Mae nifer o gwmnïau ac artistiaid proffesiynol yn gweithio yma ac mae cryn weithgarwch amatur a gwirfoddol yn digwydd gyda'r diwylliant lleol cryf a'r iaith Gymraeg yn allweddol i ran helaeth o'r gweithgarwch.

Mae yma hefyd ddiwydiant teledu llwyddiannus. Mae bron i 7% o weithwyr y Sir yn gweithio mewn diwydiannau yn ymwneud â diwylliant, y cyfryngau neu chwaraeon - sef 1,400 o bobl. Yn ôl un arolwg, mae hyn yn golygu fod Gwynedd yn drydydd o blith holl gynghorau Cymru o ran y nifer sy'n cael eu cyflogi gan y "diwydiannau creadigol".

Ym maes addysg, sefydlwyd asiantaeth sy'n talu i artistiaid ymweld â'r ysgolion. Yn y colegau a'r brifysgol, mae croesdoriad o gyrsgiau ar gael ar bob lefel, yn rhan amser ac amser llawn.

Her a chyfle

Mae'r darlun yn un o fwrlwm ond weithiau mae'n anodd cael pobl o'r tu allan i'r ardal i weld a chydabod hyn. Mae angen deffro gweddill y byd at ragoriaeth celf yng Ngwynedd drwy hyrwyddo effeithiol gan weithio at greu delwedd gyfoes a chyffrous.

Pan godwyd rhai o'n hadeiladau celfyddydol, roedden nhw ymhlith y gorau trwy Gymru ond mae rhai wedi gweld dyddiau gwell. Dydyn nhw ddim yn medru ymateb i anghenion heddiw. Mae natur wledig y Sir yn ei gwneud hi'n anodd i rai pobl gyrraedd y canolfannau yma. Mae mynd â chelfyddyd i'r cymunedau ac annog cymunedau i gymryd yr awenau eu hunain yn ein helpu i oresgyn y broblem hon. Gallwn ddefnyddio neuaddau pentref a phob math o lefydd "newydd" a "gwahanol" ar gyfer celf – siopau, meddygfeydd, manau yn yr awyr agored.

Mae'r dulliau cyfathrebu digidol hefyd yn cynnig cyfleon newydd a fydd yn lleihau'r problemau sy'n codi o natur wledig y Sir.

Mae cyrff cenedlaethol a rhanbarthol yn cydnabod gwerth y celfyddydau wrth annog cynhwysiad cymdeithasol, economi ffyniannus a gwella iechyd. Yn ei strategaeth economaidd, "Cymru : Economi'n Ffynnu" mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod y diwydiannau creadigol fel sector dwf bwysig

i economi Cymru. Rydym ni yn hyderus y bydd hyn yn cael blaenoriaeth yn Rhaglen Gydgyfeirio newydd yr Undeb Ewropeaidd.

Mae modd defnyddio'r arian a ddaw yn sgil y cynlluniau yma er lles y celfyddydau ac er mwyn gwella bywydau pobl Gwynedd. Mae cyfleon yn codi hefyd i ddatblygu rhagor o gydweithio – yn y Cyngor ei hun a gyda chyrff o'r tu allan. Mae dyfodol cyffrous yn ein wynebu ac mae'r ddogfen hon yn arwain y ffordd.



Neuadd hanesyddol Idris yng nghanol tref Dolgellau fydd cartref canolfan fodern aml-gyfrwng ar gyfer cerddoriaeth a dawns werin Cymru. Bydd Tŷ Siamas yn cyfrannu at fywyd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yr ardal. Dolgellau hefyd yw cartref gŵyl y Sesiwn Fawr, sy'n denu miloedd o bobl o bob rhan o'r byd i'r dref bob haf.



Tŷ SIAMAS

Nod ac amcanion

Rydym wedi llunio Nod ac Amcanion clir a chryno ar gyfer y Strategaeth. Y Nod yw'r hyn yr ydym am geisio ei wneud dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r Amcanion yn nodi pa gamau sydd eu hangen er mwyn cyrraedd y Nod.

Y Nod

Gwella bywydau pawb yng Ngwynedd drwy'r celfyddydau gan annog safonau da ym mhob maes.

Yr Amcanion

AMCAN 1

Gwneud yn siŵr fod **pawb** yng Ngwynedd yn cael cyfle i fwynhau'r celfyddydau - CYRRAEDD PAWB.

AMCAN 2

Gwneud yn siŵr fod y gelfyddyd o'r **safon** uchaf posib, gan gofleidio **rhagoriaeth** a sicrhau bod **dewis** eang o wahanol fathau o gelfyddyd ar gael – SAFON DA A DEWIS.

AMCAN 3

Gwneud y celfyddydau yn rhan annatod o'r broses o **adfywio** cymunedau'r sir gan **wella** ansawdd bywyd ei thrigolion – GWELLA BYWYDAU.



Daeth cannoedd ynghyd i Gastell Caernarfon mewn "Stomp" farddonol yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Eryri 2005. Trefnwyd y cyfan gan yr Academi gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru a Cadw. Mewn Stomp, stôl yw'r wobr a'r gynulleidfa sy'n dewis y cerddi gorau. Yr enillydd yn y Castell oedd y bardd, y gantores a'r llenor o Eifionydd, Gwyneth Glyn.

Llun: Owain Llŷr



"Stomp"

Amcan 1 : Cyrraedd pawb

Pwy yw “pawb”?

Pobl ym mhob ran rhan o Wynedd – mewn trefi ar draws y Sir; mewn cymunedau gwledig ac ar stadau tai.


Pobl o'r gwahanol grwpiau economaidd – y tlawd yn ogystal â'r cyfoethog, o'r di-waith i'r rhai sydd wedi ymddeol.

Pobl o garfannau arbennig - troseddwyr, pobl anabl, pobl sy'n wael eu hiechyd.

Pobl o grwpiau ethnig lleiafrifol.

Pobl o bob oedran – yr ifanc a'r bobl hŷn yn ogystal â'r canol oed.



 Am dri mis bu Nancy Evans yn gweithio gyda chleifion a staff yn Ysbyty Gwynedd fel yr artist preswyl cyntaf. Y nod oedd gwella ansawdd bywydau'r plant a'r oedolion oedd yn sâl, creu gwaith i addurno'r ysbyty a chodi ymwybyddiaeth pawb am werth y celfyddydau gweledol. Roedd yn gynllun ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd, Ymddiriedolaeth Iechyd Gogledd Orllewin Cymru a Cywaith Cymru.



NANCY EVANS


Sut mae cyrraedd mwy o bobl?

Hyrwyddo effeithiol


- Gwneud yn siŵr fod pobl yn gwybod be sy'n digwydd drwy hyrwyddo a marchnata effeithiol.
- Hybu cydweithio rhwng artistiaid ar brosiectau hyrwyddo a marchnata.

Pob math o lefydd

- Mynd â chelf at bobl mewn cymunedau ar draws Gwynedd gan dargedu ardaloedd lle nad oes llawer o weithgaredd celfyddydol ar hyn o bryd.
- Cefnogi rhwydwaith o brif ganolfannau perfformio ac arddangos i wasanaethu trigolion trwy Wynedd i gyd.
- Ei gwneud hi'n haws i bobl ddod i'r canolfannau celfyddydol.
- Hybu'r defnydd o neuaddau cymunedol i gynnal gweithgaredd celfyddydol.
- Annog celf mewn llefydd newydd a gwahanol.



Roedd y gweithdai ym Mhen Llŷn yn rhoi cymorth i fandiau ifanc ddatblygu eu doniau gyda chyngor tiwtoriaid o'r Sin Roc Cymraeg – ffrwyth cydweithio rhwng asiantaethau, gan gynnwys Heddlu Gogledd Cymru, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Mentrau Iaith, Cyngor Gwynedd, Cymunedau'n Gyntaf a Gwallgofiaid Cyf. Mae hwnnw'n gwmni a ddatblygodd yn sgil prosiect tebyg ym Mlaenau Ffestiniog.



GWEITHDY "ROCED"

- Annog datblygwyr preifat i gynnwys celf mewn adeiladau a datblygiadau newydd.

Sut mae cyrraedd mwy o bobl?



Targeddu grwpiau arbennig

- Targeddu pobl o'r ardaloedd di-fraint nad ydyn nhw yn draddodiadol yn cymryd diddordeb yn y celfyddydau.
- Cydweithio gyda defnyddwyr a darparwyr er mwyn sicrhau mynediad i'r anabl i lefydd lle cynhelir gweithgareddau celfyddydol.
- Annog artistiaid a chrefftwyr i gynyddu'r niferoedd sy'n dod i'w gweithdai.
- Annog artistiaid i gydweithio gyda darparwyr i gynnal gweithdai wedi eu targedu at grwpiau arbennig.
- Cefnogi'r defnydd o'r celfyddydau er mwyn gwella iechyd unigolion, i addysgu am iechyd neu i helpu pobl ddygymod ag anawsterau iechyd, drwy gydweithio'n agos gyda'r sector iechyd.
- Annog y broses o ddarparu profiadau yn y celfyddydau ar gyfer pobl ifanc er mwyn meithrin doniau, lledu gorwelion a hybu agweddau crwn.
- Tynnu sylw pobl ifanc, a'r rhai sy'n rhoi cyngor iddyn nhw am addysg a gyrfaedd, at y cyfleon gwaith sydd yn y maes y celfyddydau.




Cynllun a ariannwyd gan yr Asiantaeth Gelfyddydol i Ysgolion Gwynedd a Môn oedd prosiect Jas-min. Y nod oedd datblygu diddordeb mewn jazz drwy wrando, perfformio a chyfansoddi drwy gyngerdd a gweithdai. Yn ystod 2005-06, bu dros 60 o ysgolion yn cymryd rhan mewn prosiectau wedi eu hariannu gan yr Asiantaeth.








Amcan 2



GWENGAN GIBBARD

 Cynllun cenedlaethol yw Cerdd Byw Nawr sy'n rhoi cyfle i gerddorion ifanc berfformio o flaen cynulleidfa. Bu'r delynores Gwengan Gibbard yn cyflwyno alawon gwerin traddodiadol i grŵp o henoed sydd fel arfer heb gyfle i glywed cerddoriaeth fyw.

Safon da a dewis:

-  Sefydlu cynlluniau rhagoriaeth sy'n rhoi hyfforddiant i bobl efo talentau arbennig fel eu bod yn cyrraedd y safonau uchaf posib.
-  Hybu cydweithio rhwng artistiaid a chrefftwyr unigol fel eu bod yn elwa'n artistig.
-  Datblygu cysylltiadau rhwng y cwmnïau proffesiynol a'r rhai amatur er lles artistig.
-  Hybu gwyliau celfyddydol fel ffordd o greu gweithgaredd artistig.
-  Codi safonau yn yr ysgolion.



Amcan 3

Gwella bywydau:

- Cydweithio efo'r diwydiannau creadigol er mwyn cynnal a chreu swyddi o safon.
- Cydweithio efo'r diwydiannau creadigol er mwyn creu hyfforddiant addas, safonol.
- Annog pobl ifanc i ddechrau a datblygu busnesau bychain ym maes y celfyddydau drwy gydweithio â chynlluniau fel Llwyddo'n Lleol.
- Hyrwyddo twristiaeth ddiwylliannol fel un o sylfaeni'r

diwydiant ymwelwyr.

- Annog y gwyliau celfyddydol i gyfrannu rhagor at economi'r ardal.
- Datblygu a meithrin mentrau celfyddydol cymunedol fel rhan o'r broses o adfywio cymunedau Gwynedd.
- Annog cymunedau i drefnu gweithgareddau eu hunain.
- Datblygu cysylltiadau efo'r sector celfyddydol mewn rhannau eraill o'r Gogledd, Cymru, Gwledydd Prydain, Ewrop a thu hwnt.

Mae Gwynedd yn enwog am ei diwydiant teledu ac animeiddio llewyrchus. Sefydlwyd Griffilms yng Nghaernarfon yn 1992 a bellach mae gan y cwmni animeiddio swyddfa yng Nghaerdydd hefyd ac mae'n cyflogi 15 o bobl. Y cwmni yma sy'n gyfrifol am y gwaith animeiddio i'r gyfres ddychan "Cnex" ar S4C – rhaglenni sy'n cael eu cynhyrchu gan gwmni teledu lleol arall, Cwmni Da sy'n cyflogi 35 o bobl.









Gwireddu'r nod


Er mwyn symud tuag at wireddu Nod ac Amcanion y Strategaeth, mae Cyngor Gwynedd yn credu ei bod yn hollbwysig cydweithio efo cyrff eraill sydd ynghlwm â'r celfyddydau.

Bydd y Cyngor hefyd yn darparu nawdd a chyngor yn y maes.




Cydweithio:

-  Cydweithio efo ysgolion, colegau a phrifysgolion er mwyn sicrhau fod myfyrwyr yn medru derbyn addysg a hyfforddiant yn y meysydd celfyddydol.
-  Datblygu partneriaethau cryf efo mudiadau celfyddydau cenedlaethol a rhanbarthol.
-  Cydweithio efo cymunedau a mudiadau gwirfoddol ar draws Gwynedd sy'n trefnu gweithgarwch celfyddydol.
-  Cefnogi Fforwm Celfyddydau Gwynedd er mwyn cryfhau'r cysylltiadau ar draws y celfyddydau yng Ngwynedd.
-  Sicrhau fod y Strategaethau allweddol ar gyfer Gwynedd yn rhoi lle teilwng i'r celfyddydau.
-  Cydweithio efo ysgolion, colegau, prifysgolion ac asiantiaethau

cyngori gyrfa er mwyn sicrhau fod myfyrwyr o Wunedd yn derbyn cyngor proffesiynol clir ar gyfleon gwaith neu sefydlu busnes.

-  Manteisio ar gyfleon i gydweithio gyda swyddogion datblygu'r economi er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfleon sy'n codi yn y celfyddydau.

Nawdd a chyngor:

-  Darparu cefnogaeth ariannol er mwyn cynnal sylfaen y celfyddydau a chynnal digwyddiadau yn unol â Nod ac Amcanion y Strategaeth hon.
-  Darparu cyngor drwy'r rhwydwaith o swyddogion celfyddydol sy'n cael eu cyflogi gan y Cyngor gan gydlynu eu gwaith.
-  Cydlynu gwybodaeth am gymorth ariannol sydd ar gael i'r celfyddydau yng Ngwynedd.



Be nesa?

Er mwyn gwneud yn siŵr fod hyn i gyd yn digwydd mi fydd Cyngor Gwynedd yn creu cynllun gwaith manwl yn seiliedig ar y Nod a'r Amcanion.

Byddwn yn cymharu ystadegau ar wahanol agweddau o'r gwaith o flwyddyn i flwyddyn er mwyn mesur y cynnydd.

Ffordd ymlaen i'r celfyddydau yng Ngwynedd sy'n cael ei nodi yma ac, wrth gwrs, fe fydd modd datblygu hyn dros y blynyddoedd nesaf, gyda chydweithrediad pawb sy'n gweithio neu'n ymddiddori yn y maes.

I gyrraedd y nod, byddwn yn dibynnu'n helaeth ar artistiaid a chwmnïau celfyddydol, ar fentrau cymunedol a grwpiau gwirfoddol ac ar gyrff fel Fforwm Celfyddydau Gwynedd a Chyngor Celfyddydau Cymru.

Gyda'n gilydd symudwn ymlaen i wneud y celfyddydau yn rhan o fywyd pawb, i gofleidio rhagoriaeth ac i wella bywydau pobl Gwynedd.

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Mae'r manylion cyswllt ar ddechrau'r llyfryn yma.



JEREMY STRONG

Mae'r Cyngor yn trefnu i awduron Cymraeg a Saesneg ymweld â llyfrgelloedd ac ysgolion ym mhob cwr o Wynedd i sôn am eu gwaith a thanio brwdfrydedd a dychymyg y plant. Athro oedd Jeremy Strong cyn troi at sgrifennu a bu'n sôn am ei lyfrau gyda phlant Tudweiliog. Mae wedi cyhoeddi dros 50 o lyfrau Saesneg i blant gan ennill sawl gwobr.



Un o gynlluniau pwysicaf Hyrwyddo Llenyddiaeth yng Ngwynedd yw'r Sgwadiau Sgwennu sy'n rhoi cyfle i blant dawnsus ddatblygu eu sgiliau sgwennu. Fe fu rhai o'r aelodau yn creu cerddi efo'r Prifardd Iwan Llwyd ar gyfer yr ŵyl Farddoniaeth Ryngwladol 'Poetry International' yn Llundain pan ddangoswyd y gwaith ar lusernau yn y South Bank. Mae'r lampau anferth i'w gweld yng Nghanolfan Hamdden Glaslyn, Porthmadog, erbyn hyn.



SGWADIAU SGWENNU